"Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro."
(Mathew 5:4)

Dyma'r ail o'r Gwynfydau yn y Bregeth ar y Mynydd. Eto, mae'n edrych fel paradocs llwyr gyda gwynfyd a galar yn ymyl ei gilydd. Serch hynny, gwelwn nad oes wir lawenydd na diddanwch na mwynhad o Dduw, heb sôn am ddod yn debyg iddo, heb i ni alaru am bechod.

Galar ysbrydol

Does neb ohonom yn hoffi meddwl am alar. Does neb yn dymuno galar chwaith, ond mae angen galar dros bechod os ydym am ddod i berthynas iawn â Duw, a chael ein trawsffurfio i fod yn debyg i'r Arglwydd Iesu Grist.

Duwiol dristwch

Dyma derm yr apostol Paul am alar ysbrydol yn 2 Cor. 7:10: **"Canys duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch er iachawdwriaeth ni bydd edifeirwch ohoni:"(BWM).** Beth yw duwiol dristwch, felly?

Galar yn ymwneud â Duw

Mae'r tristwch yma'n codi wrth ystyried ein bywyd gerbron Duw. Allwedd edifeirwch yw gweld ein pechodau fel trosedd yn erbyn Duw. Mae duwiol dristwch yn gofidio am dramgwyddo Duw mewn tair ffordd:

Fel gelyn. Mae pechod yn golygu cael agwedd gelyn at Dduw yn hytrach nag agwedd cyfaill. **"Yr oeddech chwithau ar un adeg wedi ymddieithrio, ac yn elyniaethus eich meddwl, a'ch gweithredoedd yn ddrwg."** (Col.1:21)

Fel plentyn anniolchgar. Fe welwch blant weithiau sydd wedi cael eu difetha gan eu rhieni. Does dim ots faint o roddion mae'r rhieni yn eu rhoi, mae'r plant yn anniolchgar ac yn ddi-hid o'u teimladau. Mae'r person sy'n galaru am ei bechod yn gweld pa mor anniolchgar yw ei bechod yn wyneb holl ddaioni grasol Duw tuag ato. **"A fynni di beidio â gweld mai amcan tiriondeb Duw yw dy ddwyn i edifeirwch?"** (Rhuf.2:4)

Fel un sy'n colli Duw. Dywed Eseia yn 59:2: **"eich camweddau chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw, a'ch pechodau chwi a barodd iddo guddio'i wyneb."** Mae duwiol dristwch yn codi am fod person yn gweld ei golled heb Dduw, ac yn dymuno agosáu ato mewn cariad.

Felly, mae'r person yma yn galaru oherwydd ei fod wedi tramgwyddo Duw da a charedig, ac yn aml mae hynny wedi golygu pechu yn erbyn ei

gymydog hefyd. Dyma oedd cyffes y mab afradlon: **"Fy nhad, pechais yn erbyn y nef ac yn dy erbyn di."** (Luc 15:18). Pe byddem ni ddim yn pechu yn erbyn Duw, fyddem ni ddim yn pechu yn erbyn ein cymydog chwaith.

Galaru dros eraill

Yn y Beibl cawn enghreifftiau hefyd o bobl dduwiol yn galaru dros bechodau eraill. Darllenwn am Job yn codi'n fore **"i offrymu poethoffrymau, un dros bob un ohonynt (ei blant), oherwydd meddyliai, 'Efallai fod fy meibion wedi pechu a melltithio Duw yn eu calonnau'"** (Job 1:5).
Hefyd roedd Iesu yn wylo ac yn galaru dros Jerwsalem wrth iddi bechu yn erbyn Duw a gwrthod y Meseia (Luc 19:41).

Tristwch y byd

Mae'r apostol Paul yn cymharu duwiol dristwch gyda thristwch y byd, ac mae'n dweud bod yr ail dristwch yn **'peri marwolaeth'.** (2 Cor. 7:10) Beth yw nodweddion tristwch y byd, neu dristwch annuwiol?
Tristwch hunanol. Mae'n codi oherwydd amgylchiadau anffafriol i'r hunan.
Tristwch anobeithiol. Dyma welwn yn Jwdas Iscariot. Roedd wedi cyffesu ei bechod, wedi rhoi yr arian yn ôl, ond roedd yn siŵr bod ei bechod yn fwy na gras Duw, ac felly nid edifarhaodd.
Tristwch rhagrithiol. Cawn enghraifft o hyn gyda'r brenin Saul yn 1 Sam.15. Roedd wedi pechu yn erbyn Duw wrth fod yn anufudd mewn brwydr yn erbyn yr Amaleciaid. Pan mae Samuel yn ei wynebu â'i bechod, mae'n cyffesu. Yn yr un frawddeg mae'n rhoi peth o'r bai ar y bobl am ei fod yn eu hofni, yn hytrach nag ysgwyddo'i fai ei hunan. Yna mae'n perswadio Samuel i **'ddangos parch'** tuag ato yn gyhoeddus, er mwyn cadw wyneb gerbron y bobl, yn hytrach na chyffesu'n gyhoeddus.
Tristwch oherwydd y gosb. Fe welwn Cain yn drist oherwydd cosb Duw, yn fwy nag y mae'n tristáu am ei bechod: **"Y mae fy nghosb yn ormod i'w dwyn"** (Gen. 4:13).

Cysur

Mae Iesu'n addo cysur. Pa gysur, felly?

Dywed Paul bod duwiol dristwch yn esgor ar edifeirwch sy'n arwain at iachawdwriaeth. Yn dilyn galar ysbrydol daw blas melys maddeuant. Mae galar yn arwain at y Gwaredwr ac at y groes, ac mae'r Ysbryd Glân yn sibrwd wrth y galarwr fod gwaed mab Duw yn ei lanhau o bob pechod. Eto, cymysg yw'r cysur yn y byd hwn oherwydd daw mynych lithriad eto ac achos i alaru'n barhaus. Ond yn y nef bydd y diddanwch yn llawn oherwydd **"bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy"** (Dat. 7:17).